## ATODLEN 2

Erthyglau 3(3), (4) a (5), 4(4), 7(3) a (4)

## GLANHAU A DIHEINTIO CYFRWNG CLUDO

### Lefel y glanhau a'r diheintio

**1.** Rhaid gwneud yr holl lanhau a diheintio er mwyn lleihau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, y perygl o drosglwyddo'r clefyd.

### Y rhannau o'r cyfrwng cludo y mae angen eu glanhau

**2.**—(1) Yn achos anifeiliaid nad ydynt yn cael eu cludo mewn cynhwysydd —

(a) rhaid glanhau'r canlynol p'un a ydynt wedi eu baeddu ai peidio: holl wynebau mewnol y rhannau hynny o'r cyfrwng cludo y cludwyd yr anifeiliaid ynddynt, a phob rhan o'r cyfrwng cludo y mae'n bosibl bod yr anifeiliaid wedi cael mynd ati yn ystod y daith; a

(b) rhaid glanhau'r canlynol os ydynt wedi eu baeddu —

(i) unrhyw ffitiadau datodadwy nas defnyddiwyd yn ystod y daith;

(ii) unrhyw ran arall o'r cyfrwng cludo; a

(iii) unrhyw gyfarpar.

(2) Yn achos anifeiliaid a gludwyd mewn cynhwysydd, rhaid glanhau'r tu mewn i'r cynhwysydd p'un a yw wedi ei faeddu ai peidio, a rhaid glanhau'r tu allan i'r cynhwysydd ac unrhyw rannau o'r cyfrwng cludo sy'n cario'r cynhwysydd os ydynt wedi'u baeddu.

(3) Rhaid i olwynion, gardiau olwynion a bwâu olwynion cyfrwng cludo gael eu glanhau p'un a ydynt wedi eu baeddu ai peidio a p'un a glydwyd yr anifeiliaid mewn cynhwysydd ai peidio.

(4) At ddibenion erthygl 3, rhaid diheintio hefyd bob rhan o gyfrwng cludo y mae'n ofynnol ei lanhau.

### Y dull glanhau

**3.** Rhaid glanhau drwy symud ymaith unrhyw borthiant y mae'r anifeiliaid wedi cael mynd ato, unrhyw sarn (llaesodr), unrhyw garthion ac unrhyw ddeunydd arall sy'n tarddu o anifeiliaid, unrhyw laid ac unrhyw halogion eraill drwy ddefnyddio unrhyw gyfrwng priodol, a glanhau wedyn â dwr, stêm neu, pan fo'n briodol, gemegau neu gyfansoddion cemegol (neu, os bydd angen, unrhyw gyfuniad o'r rhain) nes cael gwared ar y baw.

### Y dull diheintio

**4.** Rhaid i bopeth y mae'n ofynnol ei ddiheintio o dan y Gorchymyn hwn gael ei ddiheintio ar ôl gorffen ei lanhau, drwy ddefnyddio diheintydd a gymeradwywyd o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978(**1**) yn ôl y crynodiad sy'n ofynnol o dan y gorchymyn hwnnw ar gyfer "gorchmynion cyffredinol".

(**1**) O.S. 1978/32, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/919 ac, ynghylch Cymru, gan O.S. 2001/641 (Cy.31).